OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1512 (Cy.138)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy)(Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010

Gwnaed - - - -	*27 Mai 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - -	*24 Mehefin 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac wedi ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4).

Gosod terfyn cyflymder

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y rhan honno o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin yn Rogiet yn Sir Fynwy sy'n estyn o bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf hyd at bwynt 752 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf.

Dirymiad

4. Dirymir Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya 2005(**3**) drwy hyn.

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(**2**) Diwygiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, adran 168(1), Atodlen 8, paragraff 77.
(**3**) O.S. 2005/1450 (Cy.113).